Helo a chroeso i rifyn mis Rhagfyr o Newyddion Datgeliad y DBS.

Y mis hwn, rydym yn dathlu blwyddyn o fod y DBS. Ac am flwyddyn a fu! Blwyddyn o newid digyffelyb i'n gweithdrefnau a deddfwriaeth, cynhyrchion newydd – wedi eu cynllunio ar eich cyfer chi, ac wrth gwrs yn sicrhau fod y DBS yn parhau i fod yn ganolog i'r byd diogelu.

Wedi'r cyfnod o newid dwys a phrysur braidd a gafwyd dros yr haf, rydym yn mynd i'r flwyddyn newydd ychydig yn fwy hamddenol.

Mae ffurflenni cais a wrthodir yn ôl i'r lefel arferol ac mae'n dda gennyf gael dweud ein bod yn sicrhau cynnydd da o ran clirio'r ôl-groniad o geisiadau yn yr heddluoedd. Mae'r mwyafrif helaeth o heddluoedd bellach ar y ffordd i gyrraedd y nod, felly llawer o ddiolch i chi am fod yn amyneddgar yn ystod y cyfnod hwn o aflonyddwch.

Er i amgylchiadau fod braidd yn heriol ar adegau, a bod y newidiadau wedi cael effaith uniongyrchol arnoch a sut ydych chi'n gweithio, mae'n dda cael adrodd eich bod wedi addasu'n dda i bopeth a ddaeth ar eich traws.

Fel arfer, rydym yn croesawu adborth, felly peidiwch â bod yn swil! Cysylltwch â ni yn customerservices@dbs.gsi.gov.uk

Yn olaf, rwyf am fanteisio ar y cyfle ar ran pawb ohonom yma yn y DBS i ddymuno Nadolig Llawen iawn i chi, a Blwyddyn Newydd hapus, iach a ffyniannus yn 2014.

**Sue Quigley**
**Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgeliad)**

---

## Oriau agor Datgeliad dros Y Nadolig

| | |
|---|---|
| Llun 23 Rhagfyr | 08:00 – 18:00 |
| Noswyl Nadolig | 08:00 – 17:00 |
| Dydd Nadolig | Ar gau |
| Gŵyl San Steffan | Ar gau |
| Gwener 27 Rhagfyr | 08:00 – 18:00 |
| Sadwrn 28 Rhagfyr | 10:00 – 17:00 |
| Sul 29 Rhagfyr | Ar gau |

| | |
|---|---|
| Llun 30 Rhagfyr | 08:00 – 18:00 |
| Mawrth 31 Rhagfyr | 08:00 – 17:00 |
| Mercher 1 Ionawr | Ar gau |
| Iau 2 Ionawr | 08:00 – 18:00 |
| Gwener 3 Ionawr | 08:00 – 18:00 |

Bydd ein gwasanaethau ar-lein yn dal yn hygyrch dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

---

## Gofyn am wiriadau rhestr amhriodol

Wyddoch chi ei bod yn drosedd gofyn am wiriad rhestrau gwahardd ar gyfer rôl nad yw'n gymwys ar gyfer un?

Gallai gofyn am wiriadau rhestrau gwahardd amhriodol gael effaith andwyol ar yr ymgeisydd ac unrhyw brosesau recriwtio cysylltiedig.

Er mwyn cadw'ch cofrestriad gyda ni, bydd angen i chi gydymffurfio gyda'n Cod Ymarfer ac Amodau Cofrestru, sy'n gosod cyfrifoldeb ar gydlofnodwyr i ofyn am geisiadau ar gyfer swyddi cymwys, ac mae'r un peth yn berthnasol i wiriadau rhestrau.

Fel cydlofnodydd, pan fyddwch yn llofnodi maes 72 adran y ar y ffurflen gais, rydych yn gwneud datganiad cyfreithiol eich bod wedi gofyn am y lefel gywir o wiriad, sy'n briodol i'r rôl a restrir yn y maes 'swydd yr ymgeisir ar ei chyfer'.

Gallwch ofyn yn gyfreithlon am wybodaeth rhestr wahardd pan fyddwch yn asesu addasrwydd yr ymgeisydd i gymryd rhan mewn gweithgaredd rheoledig gyda phlant ac/neu oedolion, ond dim ond ar gyfer y rhestr(au) sy'n berthnasol i'r rôl honno ddylech chi wneud hynny. Rydych hefyd yn datgan y bydd yr ymgeisydd, neu ei fod ar hyn o bryd, yn cyflawni gweithgaredd rheoledig gyda phlant ac/neu oedolion.

Mae yna nifer fechan o rolau *nad* ydynt yn weithgaredd a reoleiddir, ond sy'n dal yn gallu cael rhestr o wiriadau, ac felly maent yn eithriad i'r rheol hon. Rhieni mabwysiadol ac aelodau o gartrefi sy'n mabwysiadu, maethu neu warchod plant sy'n oedolion yw'r mwyaf cyffredin.

Ceir rhestr lawn o'r swyddi lle gallwch ofyn am wiriad rhestr gwahardd oedolion neu blant yma.

Pan fydd unigolyn wedi ei wahardd yn ceisio gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir, mae'n cyflawni trosedd, ac os byddwn yn nodi fod rhywun ar y rhestr(au) wedi gwneud cais am rôl o'r fath, byddwn yn cymryd camau priodol. Byddwn yn anfon pecyn tystiolaethol, sy'n cynnwys crynodeb o'r drosedd, copi o'r DAF neu EDAF, a datganiadau tystion at yr heddlu er mwyn iddynt gael ystyried erlyniad. Gallai hyn gynnwys Ymchwiliwr DBS a all gael gŵys i fynychu'r llys i roi tystiolaeth. Wrth gynnal ymchwiliadau, mae'r heddlu weithiau yn canfod NAD yw'r unigolyn yn gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir ac felly nad yw wedi cyflawni trosedd.

Weithiau ni fyddwn yn canfod hyn nes bydd yr achos yn cyrraedd y llys, ac erbyn hynny bydd cryn dipyn o amser ac ymdrech wedi ei wastraffu o ganlyniad i gais gwiriad rhestr amhriodol a fydd yn ysgogi cadwyn o ddigwyddiadau na ellir ei hosgoi.

**Enghraifft**

Derbyniom gais ar gyfer athro ysgol gynradd lle gofynnwyd am wiriad yn erbyn rhestrau gwahardd plant ac oedolion. Cysylltom â'r ysgol i gadarnhau eu bod wedi gofyn am y gwiriadau rhestr cywir, ac fe gyfaddefont fod y cais am wybodaeth rhestr wirio oedolion yn gamgymeriad.

Pe na byddem wedi nodi'r gwall hwn, efallai y byddai'r unigolyn wedi ei wahardd ar gam rhag gweithio gydag oedolion. Pe byddai'r unigolyn eisoes wedi ei wahardd rhag gweithio gydag oedolion ond nid plant, byddai wedi edrych fel petai wedi cyflawni trosedd trwy wneud cais bwriadol i weithio mewn Gweithgaredd a Reoleiddir gyda grŵp bregus yr oedd wedi ei wahardd rhag gweithio gyda nhw. Byddai hyn yn cael ei adrodd i'r heddlu, ac mae'n bosibl y byddent yn ymweld â'r unigolyn gyda'r bwriad o gychwyn erlyniad.

Hefyd, efallai y byddai'r ysgol wedi cael mynediad at wybodaeth nad oedd ganddynt awdurdod i'w gweld. Ni fyddai'n bosibl defnyddio'r wybodaeth hon yn gyfreithlon mewn penderfyniad recriwtio neu ddargadw, ond pe bai yn cael ei herio, gallai fod yn anodd i'r ysgol ddangos nad oedd wedi ei defnyddio wrth benderfynu diswyddo neu wrthod cyflogaeth.

Byddai'r ysgol wedi bod yn agored i her gan yr unigolyn am dorri Ddeddf Diogelu Data 2008 ac wynebu gweithredu gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Os ydym yn dod o hyd i dystiolaeth am geisiadau gwiriad rhestr amhriodol, gallwn gymryd camau gyda'r corff cofrestredig sydd wedi cyflwyno'r cais DBS.

Mae'r Adran Iechyd a'r Adran Addysg wedi cynhyrchu canllaw sy'n sefydlu'r rolau sy'n cael eu dosbarthu bellach fel gweithgaredd a reoleiddir o ran oedolion a phlant, ac mae hyn yn ystyried y newidiadau i'r Gweithgareddau a Reoleiddir a wnaed gan y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012.

---

## e-ganllaw yn llwyddiant

Rydym wrth ein boddau bod cymaint ohonoch wedi bod yn defnyddio ein e-ganllaw newydd i gwblhau'r ffurflen gais DBS. O fewn tridiau i'w lansio, roedd ein gwefan wedi derbyn dros 1,700 o drawiadau – sy'n dweud wrthym mai dyma'r math o ganllaw rydych wedi bod yn chwilio amdano i'ch helpu i wneud eich gwaith yn well fyth.

Mae'r adborth cychwynnol wedi bod yn bositif iawn:

- "Roedd yn offeryn hawdd iawn i'w ddefnyddio ac yn werth buddsoddi amser ynddo." *(Julia Parker-Johnstone, Ymddiriedolaeth Hamdden Nuneaton a Bedworth)*

- "Dwi'n meddwl ei fod yn arbennig ac yn sicr bydd yn helpu ein gwirwyr hunaniaeth a chydlofnodwyr newydd." *(Lisa McDermott, Cynghorydd Gwirfoddoli a Chynhwysiant (Lloegr), Y Gymdeithas Strôc)*)

- "Roeddwn i'n meddwl ei fod yn offeryn dysgu da iawn." *(Sarah Rush, Ramsay Health)*

Rydych hefyd wedi dweud wrthym fod y dolenni defnyddiol yn y canllaw yn arbennig o ddefnyddiol.

Cofiwch lenwi'r holiadur ar ddiwedd yr e-ganllaw hefyd. Rydym eisoes wedi gwneud gwelliannau yn seiliedig ar eich sylwadau, felly mae rhoi'ch adborth yn allweddol i sicrhau fod y canllaw yn gwneud yr hyn y dylai i'ch helpu i gyflwyno ceisiadau sy'n cydymffurfio'n llawn.

---

## Llunio ein dyfodol a rennir

Mae sicrhau mewnwelediad i'ch profiadau a'ch barnau yn allweddol i wella'n gwasanaethau. Rydym eisiau darparu gwasanaethau sy'n bodloni'ch disgwyliadau, ond mewn gwirionedd fe hoffem ragori arnynt.

Rydym eisiau gwneud newidiadau a gwelliannau i'n cynnyrch a'n gwasanaethau yn y dyfodol yn rhai positif iawn; felly mae'n bwysig eich cynnwys chi yn y broses honno.

Rydym wedi comisiynu dau brosiect ymchwil gan Ipsos MORI a gynhelir yn fuan – ymchwil i'r Gwasanaeth Diweddaru y mis hwn, a boddhad Cwsmeriaid a Mewnwelediad yn y Flwyddyn Newydd. O hyn, rydym eisiau deall beth ydych chi ei eisiau a'i angen o'n gwasanaethau; y rhwystrau a'r ysgogyddion i ddefnyddio'r gwasanaeth; defnydd tebygol o'r gwasanaeth yn y dyfodol a'r archwaeth am wasanaethau digidol; lefelau o foddhad cwsmeriaid a beth arall allwn ni ei wneud, a llawer mwy.

Rydym eisiau gwella'ch profiadau, dal i wneud yr hyn rydym yn ei wneud yn dda ac ystyried cyfleoedd cyffrous, gan ddefnyddio eich syniadau ynghyd â'n harbenigedd diogelu. Byddem yn falch iawn pe gallech gymryd rhan a rhannu'ch barn os cysylltir â chi.

Byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau y flwyddyn nesaf ac yn defnyddio'r casgliadau i wneud gwelliannau i'n cynnyrch a'n gwasanaethau.

---

## Diweddaru'r canllaw hidlo

Yn ddiweddar rydym wedi diweddaru canllaw hidlo'r DBS i gynnwys gwybodaeth ynglŷn â chwestiwn e55 a thynnu sylw at ganllaw allanol a gewch gan Wasanaeth Cyngor Adsefydlu Nacro.

---

## DBS: flwyddyn yn ddiweddarach

Ar 1 Rhagfyr, dathlodd y DBS ei ben-blwydd cyntaf.

Yn ein blwyddyn gyntaf rydym wedi cyflawni naw o'r 10 o argymhellion a wnaed gan Sunita Mason yn yr Adolygiad o Gofnodion Troseddol – yr adolygiad a arweiniodd at ein creu. Rydym hefyd wedi cyhoeddi dros bedair miliwn o dystysgrifau.

Rydym wedi cyflwyno dau wasanaeth newydd, sydd wedi helpu i foderneiddio prosesau. Gallwch nawr gael gwiriadau troseddolrwydd yn gynt gyda'r Gwasanaeth Diweddaru, a lansiwyd gennym ym Mehefin, ac mae ymgeiswyr bellach yn cael cyfle i adolygu gwybodaeth ar eu tystysgrif cyn ei chyflwyno i'r cyflogwr trwy gyflwyno 'Tystysgrif Ymgeisydd yn Unig', o ganlyniad i gyflwyno'r Ddeddf Diogelu Rhyddidau.

Lansiwyd ein e-ganllaw newydd i gwblhau'r ffurflen gais yn ddiweddar ac mae gennym ddatblygiad cyffrous ar y gweill ar gyfer yr offeryn cymhwyster ar-lein. Rydym hyd yn oed wedi mynd yn ddigidol gyda  Newyddion Datgeliad y DBS!

Mae'r rhain i gyd yn ddeilliannau arwyddocaol ar gyfer sefydliad newydd, ond nid ar ein pennau'n hunain y cyflawnom hyn. Mae ein perthynas gref gyda'n 3,800 o gyrff cofrestredig wedi datblygu dros y flwyddyn ac mae partneriaethau i helpu i froceru gwiriadau diogelwch hefyd yn dal i dyfu.

Mae blwyddyn un wedi bod yn un heriol i bawb ohonom - nid ydym wedi gallu cynnal ein perfformiad Safonau Gwasanaethau Cyhoeddus rhagorol arbennig ar yr holl ddatgeliadau oherwydd effaith y polisi a'r newidiadau proses ar ein cydweithwyr yn yr heddlu. Yn sicr, nid yw hyn o ganlyniad i ddiffyg ymdrech, ac rydym nawr yn bwriadu adfer y sefyllfa'r flwyddyn nesaf.

"Rwy'n hynod falch o'r hyn a gyflawnwyd gennym eleni, ac yn edrych ymlaen at berfformiad cryf yn y blynyddoedd i ddod," meddai ein Adriènne Kelbie, ein prif weithredwr.

"Mae helpu i ddiogelu grwpiau bregus a phlant a chynorthwyo cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio diogel yn waith allweddol ac mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gwneud hyn yn well nag unrhyw un arall. Rwy'n hyderus y bydd ein hanes o ddarparu'r gwiriadau troseddolrwydd mwyaf cywir a chefnogi cyflogwyr i wneud penderfyniadau cyflogaeth diogel yn parhau i ddatblygu."

Yn y blynyddoedd i ddod, byddwn yn ceisio bod hyd yn oed yn fwy modern a galluog i gyflawni'n gwasanaeth mewn byd mwy heriol.